

# Rheoli plâu a chlefydau

## TAFLEN GWYBODAETH

### Cyflwyniad

Mae tyfu planhigion iach o ansawdd uchel yn helpu i sicrhau gwerthiant da, a gall planhigion nad ydynt yn iach fod yn gostus i dyfwyr. Pan fydd plâu a phathogenau yn ymosod ar blanhigion, mae'n arwain at ddifrod, a gall arwain at golli'r planhigion. Mae plâu yn cynnwys pryfed, gwiddon a nematodau, yn ogystal â phathogenau megis ffyngau, bacteria a firsau.

Mae angen i feithrinfeydd ymarfer safonau uchel o hylendid i atal plâu a chlefydau rhag ymsefydlu. Fodd bynnag, yn aml bydd plâu neu bathogenau i'w gweld ar blanhigion y mae angen mesurau ychwanegol arnynt i gynnal ansawdd y planhigion yn y feithrinfa. Gellir gwneud hyn drwy:

- Ddulliau biolegol gan ddefnyddio gelynnion naturiol neu fioamddiffynwyr.
- Cemegion confensiynol.
- Cyfuniad effeithiol o'r ddau trwy Reoli Plâu a Chlefydau yn Integredig.

Mae atal lledaeniad plâu a chlefydau y tu allan i'r feithrinfa i blanhigion cwsmeriaid, busnesau tyfwyr eraill a chynefinoedd a rhanbarthau naturiol yn hanfodol. Er mwyn cefnogi hyn, dylai tyfwyr ddeall egwyddorion bioddiogelwch. Mae arferion bioddiogelwch yn cynnwys safonau iechyd planhigion a deddfwriaeth y llywodraeth. Er mwyn atal lledaeniad rhwng gwledydd, mae rheoliadau mewnfario ac allfario cenedlaethol sy'n ei gwneud yn ofynnol i dystysgrifau ffytoiechydol gael eu cyhoeddi. Hyd yn oed ar gyfer gwerthiannau busnes-i-fusnes ym Mhrydain Fawr, mae Pasbortau Planhigion y DU yn ofynnol.

Defnyddiwch y canllaw hwn i wybod mwy am y canlynol:

- Sut i adnabod a nodi symptomau plâu a chlefydau planhigion.
- Rheoli Plâu a Chlefydau yn Integredig a gwybodaeth fanwl ar reoli plâu a chlefydau mewn cnydau arbenigol.
- Egwyddorion bioddiogelwch a chanllawiau ar y ddeddfwriaeth ar gyfer mewnfario ac allfario planhigion a chynhyrchion planhigion.

### Cynnwys

1. Cyflwyniad i iechyd planhigion
2. Rheoli Plâu a Chlefydau yn Integredig
3. Bioddiogelwch a mewnfario/allfario
4. Rheoli chwyn ac iechyd y pridd
5. Cnydau arbenigol



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**



**GARDWRIAETH**  
HORTICULTURE

## 1. Cyflwyniad i iechyd planhigion

Mae gwybodaeth am iechyd planhigion yn hanfodol i dyfwrwr wrth gynhyrchu planhigion gwerthadwy, o ansawdd uchel ac i atal lledaeniad plâu a phathogenau. Isod mae adnoddau sy'n cyflwyno iechyd planhigion; mae'r adnoddau hyn yn addas ar gyfer newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant garddwriaeth ac ar gyfer tyfwrwr masnachol sydd am ehangu eu gwybodaeth.

- Ble i ddod o hyd i wybodaeth am blâu a chlefydau planhigion
- Mynd i'r afael â hanfodion iechyd planhigion
- Taflen ffeithiau: Clefydau cnydau salad
- [Modiwl eDdysgu: Adnabod plâu, clefydau a chwyn mewn garddwriaeth](#)
- [Modiwl E-ddysgu: Egwyddorion garddwriaeth plâu a chlefydau planhigion](#)

## 2. Rheoli Plâu a Chlefydau yn Integredig

Mae Rheoli Plâu a Chlefydau yn Integredig yn ddull o gymysgu rheolaethau ffermwrol, rheolaethau biolegol (bioreolaethau) a chemegion confensiynol i sicrhau'r rheolaeth orau o blâu a chlefydau mewn cnydau. Gellir defnyddio'r rheolaethau yn ataliol neu'n iachaol. Mae bioreolaethau yn fwy amgylcheddol gynaliadwy ac mae ganddynt lai o weddillion cnydau. Mae'r defnydd ohonynt yn cynyddu wrth i argaeledd cemegion effeithiol leihau.

Er mwyn defnyddio bioreolaethau yn effeithiol, rhaid monitro'r cnwd yn ofalus ac yn rheolaidd am arwyddion o blâu neu glefydau. Mae bioreolaethau yn cynnwys yn bennaf ysglyfaethwyr neu ysglyfaethwyr parasitaidd o'r rhywogaethau plâu, a bioamddiffynwyr a all fod yn chwistrellau megis chwistrellau bacterol.

Nid yw Rheoli Plâu a Chlefydau yn Integredig yn system ffermio organig, oherwydd os nad yw'r bioreolaethau yn ddigonol, gellir defnyddio cemegion confensiynol. Fodd bynnag, mae'r defnydd o gemegion yn llai mewn system Rheoli Plâu a Chlefydau yn Integredig.

Gan fod llawer o'r bioreolaethau yn organebau byw, rhaid i'r amodau fod yn iawn iddynt ffynnu a gweithredu. Er enghraifft, rhaid bod lefel isel barhaus o blâu y gallant fwydo arnynt, ac mae'n rhaid i'r tymheredd a'r lleithder fod yn addas.

Pan fydd y system Rheoli Plâu a Chlefydau yn Integredig yn cynnwys gwahanol fathau o reoli, mae'n bwysig ei chynllunio ar ddechrau'r tymor cnydau.

Argymhellir yr adnoddau canlynol:

- Hyrwyddo pryfed buddiol
- Rhaglen chwistrellu ar gyfer atal a rheoli clefydau: planhigion awyr agored, dan orchudd ac addurnol
- Diogelu Planhigion Addurnol
- Astudiaeth Achos Ffrwythau Meddal - Ebrill 2020 (Mafon Cefndir a Ffrwythau cansenni, Sefydlu cnydau, plâu a chlefydau)
- Astudiaeth achos Ffrwythau Meddal - Mehefin a Gorffennaf 2020 (Casglu a gwerthu, Gweithgareddau 'Casglu Eich Hunain' ddiwedd tymor, Rheoli plâu)



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**



- Plâu ffrwythau meddal
- Bioreolaethau ar gyfer ffrwythau meddal
- Rheoli Clefydau mewn Ffrwythau Llwyni
- Taflen ffeithiau: Iechyd planhigion safle-benodol
- Asesiad risg
- [Modiwlau eDdysgu: Iechyd a Diogelwch Plaladdwyr](#)
- [Modiwlau eDdysgu: Cyflwyniad i egwyddorion Rheolaeth Integredig ar Blâu \(IPM\) mewn Garddwriaeth](#)

### 3. Bioddiogelwch, mewnforyn ac allforion

Defnyddir gweithdrefnau bioddiogelwch i atal plâu a chlefydau newydd rhag dod i mewn i'r wlad ac i reoli lledaeniad plâu a chlefydau ar gnydau ac mewn cynefinoedd naturiol. Mae'r mesurau hyn yn helpu i ddiogelu gwerthoedd cnydau, yn ogystal â chynefinoedd a thirweddau naturiol.

Defnyddir mesurau i archwilio planhigion a chynhyrchion planhigion sy'n cael eu mewnforyn a'u hallforio, i roi gwybod am broblemau pan fyddant yn codi, ac i sicrhau bod lefelau plâu a chlefydau yn isel trwy fesurau hylendid a rheoli meithrinfeydd a stociau da. Defnyddir Pasbortau Planhigion a Thystysgrifau Ffytioiechydol i sicrhau bod modd olrhain planhigion a'u bod yn dod o leoliadau heb glefydau.

Mae lefelau cynyddol o symudiad masnachol planhigion, ac felly ni fu bioddiogelwch da erioed bwysicach. Mae gan dyfwyr masnachol rôl hanfodol i'w chwarae wrth atal problemau, ac mae hyn yn dechrau trwy fod yn gyfarwydd â chysyniadau bioddiogelwch, rheoliadau mewnforyn/allforio'r Llywodraeth a sut y dylid defnyddio Pasbortau Planhigion.

Am ragor o wybodaeth, gweler yr adnoddau canlynol:

- Mewnforyn planhigion risg uchel (*Xylella fastidiosa*)
- Taflen ffeithiau: Pasbortau planhigion

### 4. Rheoli chwyn ac iechyd y pridd

Mae cynhyrchu cnwd iach yn dibynnu nid yn unig ar reoli plâu a chlefydau ond hefyd ar ddarparu maeth da trwy bridd iach a lleihau cystadleuaeth gan chwyn. Mae'r adnoddau yn yr adran hon yn rhoi trosolwg o iechyd y pridd, yn ogystal ag argymhellion ar gyfer rheoli chwyn yn ffermwrol a chyda chwynladdwyr.

- Modiwlau eDdysgu:
  - [Samplu Pridd](#)
  - [Iechyd y pridd](#)
  - [Meithrin a chynnal ffrwythlondeb y pridd](#)
  - [Compostio ar y safle mewn garddwriaeth](#)
- Tymor Pwmpenni 2020 – Astudiaeth achos 'casglu eich hunain'
- Rheoli chwyn mewn planhigion addurnol
- Taflen ffeithiau: Rheoli chwyn mewn llyisiau cae



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**



Commented [DC1]: Lantra these links need replacing with links directly to BOSS

## 5. Cnydau arbenigol

Isod mae detholiad o adnoddau sy'n ymwneud â rhai cnydau arbenigol a dyfir yng Nghymru.

### PWMPENNI

- Tymor Pwmpenni 2020 – Astudiaeth achos ‘casglu eich hunain’
- Rheoli Pydredd o Waelod y Ffrwyth mewn Pwmpenni
- Tyfu Llysiau – Cynllunio ar gyfer y Gwanwyn

### ASBARAGWS

- Asbaragws – Rheoli Chwyn a Phlâu Tymor y Gwanwyn
- Gweler hefyd: Adnoddau Ffrwythau Meddal yn yr adran Rheoli Plâu a Chlefydau yn Integredig

### COED NADOLIG

- Clefydau sy'n Effeithio ar Nodwyddau Coed Nadolig
- Plâu a chlefydau coed Nadolig

### BLODAU

- Tyfu Blodau'r Haul
- Tyfu Lafant

Gweler hefyd: Adnoddau planhigion addurnol yn yr adran Rheoli Plâu a Chlefydau yn Integredig

Awduron ac ymchwil: David Skydmore ac Iain Cox



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**



**GARDWRAETH**  
HORTICULTURE